LC134

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# The National Assembly for Wales

**Y PWYLLGOR DEDDFAU ADRODDIAD DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

## Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Swyddogaethau Interim) 2000

### Cefndir

Mae Deddf Dysgu a Medrau 2000 (a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar y 28 Gorffennaf 2000) yn sefydlu Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (“y Cyngor”).

Prif swyddogaethau’r Cyngor yw sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer:

(a) addysg (heblaw addysg uwch) sy’n addas i ofynion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol,

(b) hyfforddiant addas i ofynion personau o’r fath,

(c) gwaith amser hamdden wedi’i drefnu yn gysylltiedig ag addysg o’r fath, ac

(ch) gwaith amser hamdden wedi’i drefnu yn gysylltiedig ag hyfforddiant o’r fath.

Mae prif ddarpariaethau’r Ddeddf i gael eu dwyn i rym gan orchymyn cychwyn, a thrwyddynt bydd y Cyngor yn caffael ei swyddogaethau llawn.

Mae paragraff 13 o Atodlen 10 i'r Ddeddf yn galluogi i'r Cynulliad (drwy orchymyn unrhywbryd cyn i'r Cyngor gaffael ei swyddogaethau llawn) roi'r fath bwerau i'r Cyngor y bysai ym marn y Cynulliad yn ei gynorthwyo i weithredu ei swyddogaethau llawn pan fydd yn eu cael.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi y fath bwerau, yn cynnwys pwer i roi cymorth ariannol i'r rhai sy'n cynghori neu darparu gwybodaeth i'r Cyngor.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Arwyddwyd y Gorchymyn hwn ar y 15 Medi 2000. Er hyn, ni gyflwynwyd y Gorchymyn i'r Pwyllgor nes y 9 Tachwedd 2000. Mae hyn yn groes i Reol Sefydlog 22.26 sydd yn darparu fod rhaid i orchmynion a wneir o dan y drefn brys gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor "cyn gynted a sy'n bosibl".

Derbyniwyd copi (wedi'i sganio) wedi'i arwyddo gan yr Ysgrifenydd Cynulliad o'r gorchymyn gan swyddogion y Pwyllgor. Doedd y ddogfen, er ei fod wedi arwyddo, ddim yn cynnwys dyddiad dod i rym. Mae'n ymddangos felly fod hyn yn groes i'r gofynion trefniadol.

Gwahoddir i'r Cynulliad felly gymryd sylw arbennig i'r gorchymyn o dan Rheol Sefydlog 11.5(v) ar sail methiant i gyflawni gofynion statudol neu cyfreithiol eraill.

## Sylwadau Cyffredinol

**Erthygl 3**

Mae paragraffau (1) a (2) o Erthygl 3 yn cyfeirio at "cymorth ariannol" a c "adnoddau ariannol" yn eu trefn. Nid yw'n ymddangos fod yna reswm am y terminoleg gwahanol – ac os nad oes yna rewnm bysai'n well pebai'r terminoleg wedi bod yn gyson. Mae yna hefyd wall teipograffyddol bach yn Erthygl 3(1). Mae "I" fawr yn "in".

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**9 Tachwedd 2000**

Cyf y ffeil: LAD-01-01-139